

ADOLYGU
ITIA500

CASGLU GWAITH

- Tasg Ddarllen
- Taith fy Iaith: Y blog
 - Y dudalen flaen
 - Y blogiau
 - Y dystiolaeth

AMCANION DYSGU

Adolygu Cyffredinol:

- Rhannau ymadrodd
- Sillafu
- Cymharu ansoddeiriau
- Cywiro gwallau
 - Yr amhersonol
 - Treigladau
- Ysgrifennu darn

Awdit

AWDIT

Asesiad ffurfiannol yw'r awdit sydd yn mesuro'ch lefel cychwynnol a'ch cynnydd yn ystod y cwrs.

Byddwn yn cynharu marc yr Awdit cyntaf â'r ail awdit i fesur cynnydd fel rhan o farc y modwl.

AWDIT

- Bydd awr gennych i gwblhau'r dasg.
- Ni chaniateir geiriaduron.
- Ni chaniateir ffonau symudol.
- Ni ddylid defnyddio'r rhwyngwrdd.

RHANNAU YMADRODD: ENW

Beth yw enw?

Gair sy'n nodi beth yw rhywbeth

Enghreifftiau?

Unigol / Lluosog

BETH YW RHAGENW?

Gair a ddefnyddir yn lle enw

Enghreifftiau?

DYMA RAI...

Fi

Ti

Fe

Hi

Ni

Chi

Nhw

Fy

Dy

Ei

Ei

Ein

Eich

Eu

BLE MAE'R RHAGENW?



Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.

Rhoion ni'r arian i'w thad.

Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.

Arno fe mae'r bai.

Rydw i ar fy mhen fy hunan.

Dyna eu heglwys ar y teledu.

Mae'r pennaeth yn dod i'th dosbarth.

Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.

Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw.

Dyna'r ferch a'm bwrodd i.

Mae fy nosbarth yn wych eleni.

Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r sinema.

BLE MAE'R RHAGENW?



Gwelais i'r ferch yn y dre ddoe.

Rhoion ni'r arian i'w thad.

Mae John a finnau'n ffrindiau mawr.

Arno fe mae'r bai.

Rydw i ar fy mhen fy hunan.

Dyna eu heglwys ar y teledu.

Mae'r pennaeth yn dod i'th dosbarth.

Ni sy'n siarad y prynhawn 'ma.

Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw.

Dyna'r ferch a'm bwrodd i.

Mae fy nosbarth yn wych eleni.

Aethon ni i'r dre ac aeth hithau i'r sinema.

BETH YW ANSODDAIR?

Gair sy'n disgrifio enw.

Cofiwch y gall enw weithio fel ansoddair:

Yr iaith **Gymraeg**.

Enghreifftiau o ansoddeiriau yn eich gwaith?

BETH YW ADFERF?

Gair sy'n rhoi mwy o wybodaeth inni am y ferf:

Pryd? / Sut?

Gall adferf dreiglo'n feddal.

Enghreifftiau?

Yn gyflym, yn araf, yn ofalus....

MATHAU O ADFERFAU

1. Mae Jeni'n torri'n ofalus.
Gwelon ni nhw ddydd Gwener.
Dw i'n gweithio bob nos.
2. Mae e gartref.
Trowch y llyfr drosodd.
3. Fydda i byth yn deall y treigladau!
4. Fel arfer, bydda i'n mynd i'r dref.
Wedi'r cyfan, rwy'ti wedi gwella'n sylweddol.

BERF / BERFENW?

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?



Bwyta

Bwytais

Berfenw

Berf

Bwyta = BERFENW

Dim ond dangos gweithred a wna 'bwyta'.



**Berfenw = enw ar y
weithred**

Bwytais = BERF



Mae 'bwytais' hefyd yn dangos **gweithred**, ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion** trwy'r **terfyniad 'ais'**:

Mae berfau felly'n dweud 3 pheth wrthym ni:

1. beth sy'n cael ei wneud
2. pwy sy'n ei wneud
3. pryd mae'n cael ei wneud


BETH?

PWY?

PRYD?



BERF NEU FERFENW?



- | | | |
|-------------|------------|---------------------------------------|
| • anghofio | ▶ gwariais | ☐ penderfynodd |
| • rydw | ▶ gwelais | ☐ Rhedeg |
| • bydd | ▶ cael | ☐ dysgu |
| • cofrestru | ▶ gwrando | ☐ rhedwn ni |
| • credaf | ▶ gwybod | ☐ mae e |
| • dylent | ▶ gwyddai | ☐ talu |
| • ewch | ▶ marcio | ☐ ymlacio |
| • gorflino | ▶ mynd | ☐ Ysgrifennaf |
| | | ☐ Dere |

BETH YW GODDRYCH A GWRTHRYCH?

Siaradodd pawb Gymraeg.



goddrych

Pwy?



gwrthrych

Beth?

EICH TRO CHI...

Ysgrifennodd y doctor lythyr.

Cafodd y fenyw ddamwain.

Gwelodd Huw ddrama dda.

Coginiodd fy mam ginio blasus.

Planais flodau yn yr ardd



BETH YW'R FANNOD?

Y FANNOD yw'r enw ar y ffurfiau o 'the' yn y Gymraeg, sef **Y, YR ac 'R**. Drwy roi rhain o flaen yr enw, mae'n gwneud yr enw'n bendant.

enw pendant – y llyfr (the book)

enw amhendant – llyfr (a book)

[YouTube](#)

CYSYLLTAIR

[YouTube](#)

Ymhlith eraill, ceir hefyd:

a/ac

neu

tra

â

gyda

ond

achos / oherwydd

er

os

SILLAFU

- Dyblu n
- Dyblu r
- u / i
- Acenion
- Cyplysnodau

CYMHARU ANSODDEIRIAU

- Cofiwch fod rhai'n afreolaidd! *Mawr / Bach / Uchel...*
- Dilynwch y patrwm sydd yn y grid!
- Cofiwch dreiglo os bydd angen!

CYWIRO GWALLAU

- Bydd amrywiaeth o wallau
- Treigladau
- Ei / eu
- Treiglo gwrthrych berf gryno

CYWIRO GWALLAU YR AMHERSONOL

- Gofynnir i chi ddefnyddio berfau amhersonol yn lle brawddegau goddefol cwmpasog:
- Caiff y sioe ei chynnal yfory

Cynhelir sioe yfory

CYWIRO GWALLAU TREIGLADAU

- Cofiwch fod rhaid nodi'r cywiriad 1 marc
- Cofiwch fod rhaid esbonio'n llawn 2 farc

Rhowch y llyfr ar desg yr athro

- ddesg 1 marc
- Treiglad meddal yn dilyn yr arddodiad 2 farc

YSGRIFENNU DARN

- Beth sy'n bwysig?
- Cofiwch fod mwy o bwyslais ar gywirdeb iaith nac ar gynnwys y darn.
- Defnyddiwch amrywiaeth o batrymau ac amseroedd y ferf.
- Mynegwch eich hun yn glir.
- Defnyddiwch eirfa berthnasol.
- Darllenwch dros eich gwaith.

MEINI PRAWF LLWYDDIANT

i. Strwythur y gwaith a dealltwriaeth o hanfodion y ffurf ysgrifennu

ii. Cywirdeb iaith, gan gynnwys e.e.

- * sillafu ac atalnodi**
- * elfennau gramadegol eraill perthnasol i'r lefel cyrhaeddiad ieithyddol**
- * defnydd o'r cywair addas**

DROS YR HAF

- Darllen, darllen, darllen!
- Ysgrifennu
- Ymarfer!
- Ymlacio